



# Ysgolion Ffederal

# Dwy ysgol, un teulu










Ysgol wledig naturiol Gymraeg yw Ysgol Bro Elwern. Cymraeg yw prif iaith a chyfrwng yr ysgol.  Lleolir yr Ysgol ym mhentref Gwyddelwern sydd a phoblogaeth o oddeutu 500 o bobl (2020).  Mae'r ysgol wedi ei hamgylchynnu a gwyrddni naturiol Mynydd Rhyd Ddu a Bryn Gwenallt.  Mae'r Ysgol yn dafliad carreg o felin lifio a hen chwareli gwenithfaen Wern Ddu a chwarel tywodfaen Graig Lelo.

# Dysgu fel Teulu, Tyfu fel Cymuned

Mae 40% o blant yr Ysgol yn dod o gartrefi Cymraeg.  Mae'r Ysgol yn bwydo Ysgolion Uwchradd Brynhyfryd yn Rhuthun, Ysgol Godre's Berwyn yn Y Bala ac Ysgol Dinas Bran yn







Ysgol wledig naturiol Gymraeg yw Ysgol Betws Gwerful Goch. Cymraeg yw prif iaith a chyfrwng yr ysgol. Lleolir yr Ysgol ym mhentref Betws Gwerful Goch sydd a phoblogaeth o oddeutu 340 o bobl (2020). Mae'r ysgol wedi ei hamgylchynnu a gwyrddni naturiol y byd amaeth ac yn dafliad carreg o fusnesau llwyddiannus megis Cwmni Amaethyddol Ifor Williams a Fferm Stâd Rhug.

# Dysgu fel Teulu, Tyfu fel Cymuned


Mae 60% o blant yr Ysgol yn dod o gartrefi Cymraeg. Mae'r Ysgol yn bwydo Ysgolion Uwchradd Brynhyfryd yn Rhuthun, ac Ysgol Godre Berwyn yn Y Bala.






Beth sydd yn bwysig  i blant a rhanddeiliaid Ysgol Bro Elwern ac Ysgol Betws Gwerful Goch



Beth sydd gan yr Ysgolion ei gynnig i mi?







Sut brofiad yw bod yn blentyn yn ein Ysgolion?

# Ein Gweledigaeth

Yn ein Ysgolion bydd ein holl blant yn cael eu cefnogi i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog mewn awyrgylch cartrefol, diogel a phwrpasol.  Drwy ddysgu a chreu cyfleoedd amrywiol gyda'n gilydd, bydd ein plant yn cael datblygu sgiliau i fod yn gyfranwyr mentrus a chreadigol.  Byddwn yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol gan ddatblygu hyder ac empathi bob un er mwyn iddynt allu byw eu bywyd bob dydd mor hapus, annibynnol a diogel ag y gallen nhw, nawr a drwy gydol eu hoes.


# Ein Gwerthoedd




Bod yn garedig

Ymddiried yn ein gilydd

Creu awyrgylch hapus



# Ein Disgwyliadau











## Cyfathrebu ac Ymgysylltu gyda ein Rhieni/Gofalwyr





# Ein Rhieni/Gofalwyr

Rydym yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni/gofalwyr yn rheolaidd er mwyn meithrin perthynas gadarnhaol. Er mwyn cefnogi a hybu ymgysylltu ddwy ffordd effeithiol gyda rhieni/gofalwyr rydym yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau megis; wyneb yn wyneb, yn ddigidol drwy e-bost a thrwy ein cylchlythyr bob hanner tymor. Mae ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu diweddaru yn wythosol i arddangos gweithgareddau'r plant.










## Ein Cymuned

# Ein Cymuned

Mae ein cymuned yn holl bwysig i ni, byddwn yn ymweld a'r Eglwysi a'r Capeli lleol yn rheolaidd. Gwnawn y mwyaf o'r profiadau o fewn y gymuned er mwyn sbarduno ein gwaith thema. Enghreifftiau o hyn yw

- ymweld â fferm odro leol fel rhan o'n thema 'O Ble Daw Ein Bwyd' i gael gweld y gwartheg yn cael eu godro a'r llaeth yn cael ei droi yn fenyn ar y ffarm.
- ymweliadau cyson i'r Ganolfan leol ar gyfer sesiynau meddylfryd o dwf a sesiynau dawns gan hyfforddwr lleol.
- teithiau 'Cyfarchion Stepen Drws' i godi calon trigolion y pentref ac i sgwrsio a chlywed hanesion bobl ein cymuned.






# Llesiant ac Iechyd

Bore Llun Lles

Tracio Teimladau

Holiaduron Lles

Gwrth Fwlio

Meddylfryd o Dwf

Llais y Plentyn


Tîm Trafod y Buarth

Tîm Hapus i Helpu

Mae Iechyd a Lles pawb yn ffocws ac yn flaenoriaeth uchel ar draws popeth a wnawn yn Ysgol Bro Elwern ac Ysgol Betws GG. Cynhelir 'Dydd Llun Lles' yn wythnosol lle ceir y cyfle i'r plant gael sesiynau amrywiol gan gynnwys gwrth-fwlio, meddylfryd twf ac amser cylch. Ar 'Bnawn Gwener Gwyrdd' mae'r plant yn cael dewis gweithgareddau sydd yn hybu cydweithio, amser yn yr awyr agored neu gweithgareddau tawel, tra mae grŵp bach o blant yn eu tro yn cael y cyfle i gael tê bach prynhawn gyda'u athro neu athrawes i fyfyrio ar yr wythnos ac i drafod unrhyw beth sydd yn eu poeni.

Rhannir holiaduron lles dysgwyr ddwy waith y flwyddyn a bydd y Cyngor Ysgol ynghyd a'n Llysgenhadon Lles yn edrych ar y canlyniadau. O ganlyniad mae ganddom dîm o blant sydd yn gyfrifol am edrych ar ôl eraill ar y buarth amser chwarae, sesiwn tracio teimladau yn foreuol ym mhob dosbarth, a bocs 'Beth sydd yn dy boeni' yn nerbynfa'r Ysgol.








# Ein Cwricwlwm

# Ein Meysydd Dysgu

Cwricwlwm ysgol yw popeth y mae dysgwr yn ei brofi yn yr ysgol. Yn Ysgol Bro Elwern ac Ysgol Betws GG, mae llais ein dysgwyr yn flaenoriaeth wrth benderfynnu beth yr ydym yn ei addysgu a sut.  Mae pwyslais ar gyfoethogi'r addysgu drwy gael profiadau bywyd go iawn er mwyn ymarfer eu sgiliau drwy eu dod yn fyw.  Mae hyn oll yn cael ei gwblhau drwy addysgu o dan y chwe maes dysgu canlynol....

## Celfyddydau Mynegianol

Celf, Cerddoriaeth, Drama, Ffilm, Creu yn Ddigidol

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cymraeg, Saesneg, Ieithoedd Dramor, Llenyddiaeth





## Iechyd a Lles

Lles emosiynol a chymdeithasol, Iechyd Meddwl, Bwyta'n Iach, Corff Iach

## Mathemateg a Rhifedd

Cyfrifo, Rhesymu, Datrys Problemau, Elfenau Busnes




## Y Dyniaethau

Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Dylunio a Thechnoleg, Cymhwysedd Digidol

Wrth gynllunio rydym yn rhoi pwyslais ar brofiadau eang, gwerthfawr a diddorol sydd yn bridol i oedran ein dysgwyr.  Mae Llais y Plentyn wrth wraidd pob cynllun a'u syniadau nhw yn cael eu plethu gyda elfennau o sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

# Beth sydd yn bwysig i ni o fewn bob Maes Dysgu?





















## Yr hyn sydd yn bwysig.....

### Ieithoedd LLythrennedd a Chyfathrebu

* Mae dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd yn paratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.
* Mae dysgwyr sydd yn siarad ac yn ysgrifennu'n effeithiol yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
* Mae dysgwyr sy'n gwrando ac yn darllen yn effeithiol yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
* Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

### Celfyddydau Mynegiannol

* Mae archwilio'r Celfyddydau Mynegiannol a drwyddynt yn dyfnhau ein gwybodaeth artistig ac yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o hunaniathau, diwylliannau a chymdeithasau.
* Mae ymateb a myfyrio fel artist a chynulleidfa yn rhan hanfodol o ddysgu am y Celfyddydau Mynegiannol a thrwyddynt.
* Mae gwaith creadigol yn cyfuno gwybodaeth a sgiliau gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

### Dyniaethau

* Mae datblygiad meddwl ymchwilgar yn galluogi dysgwyr I archwilio ac ymchwilio I'r byd, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol drostyn nhw eu hunain.
* Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth ac yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
* Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig wedi ei ddylanwadu gan brosesau ffisegol a gweithredoedd dynol.
* Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol ac yn cael eu llunio gan weithredoedd a chredoau dynol.
* Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu a'r heriau a'r cyfloeoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau moesegol a chynaliadwy.

### Mathmateg a Rhifedd

* Bydd dysgwyr yn darganfod bod y system rifau yn cael ei defnyddio I gynrychioli ac I gymharu cydberthnasau rhwng rhifau a meintiau.
* Bydd dysgwyr yn dod I werthfawrogi sut mae algebra yn defnyddio systemau symbolau I fynegi strwythurau's cydberthnasau rhwng rhifau, meintiau a newidynnau.
* Bydd dysgwyr yn dod I ddeall bod geometreg yn canolbwyntio ar gydberthnasau sy'n cynnwys priodweddau siapiau, gofod a safle, a bod mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomenau yn y byd ffisegol.
* Bydd dysgwyr yn gweld bod ystadegau'n cynrychioli data,bod tebygolrwydd yn modelu siawns a bod y ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

* Anogir y dysgwyr i fod yn chwilfrydig ac I chwilio am atebion er mwyn eu helpu I wella eu dealltwriaeth o'r byd naturiol, ac I hwyluso cynnydd cymdeithasol.
* Bydd dysgwyr yn dod I werthfawrogi bod meddylfryd, dylunio a pheirianneg yn ymdrechion technegol a chreadigol a'u bwriad yw diwallu anghenion cymdeithas.
* Bydd dysgwyr yn archwilio'r modd mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd I oroesi.
* Deall natur atomig mater a'r modd mae'n lliwio'r byd.
* Archwilio'r modd mae grymoedd ac egni yn pennu strwythur a dynameg y bydysawd.
* Profi sut mae cyfrifiant yn cymhwyso algorithmau at ddata er mwyn datrys problemau go iawn.

### Iechyd a Lles

* Mae datblygu iechyd a lles corfforol yn fanteisiol gydol ein hoes.
* Mae sut ydym yn prosesu ac yn ymateb I'n profiadau yn cael effaith ar ein hiechyd meddylion a'n lles emosiynol.
* Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau pobl eraill.
* Mae sut yr ydym yn ymateb I wahanol ddylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydym ni a'n hiechyd a'n lles.
* Mae cydberthnasau iach yn sylfaenol I'n hymdeimlad o berthyn a lles.





# Elfennau Mandadol y Cwricwlwm

Bydd yr elfennau hyn yn cael eu plethu i mewn i'n cwricwlwm;

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb


Sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol



# Ein nod yw meithrin dysgwyr...



Moli Mentrus






Cadi Creadigol






Glesni Gwybodus

## Dathlu Llwyddiant Ein Dysgwyr

gyda cymeriadau y Pedwar Diben wedi eu creu gan ein plant.



Hari Hyderus



Prys Parchus











Iestyn Iachus


# Ein nod yw meithrin dysgwyr...



Gwen Gwybodus



Huw Hyderus




Ianto Iach


## Dathlu Llwyddiant Ein Dysgwyr



Ceri Creadigol




gyda cymeriadau y Pedwar Diben wedi eu creu gan ein plant.



Mari Mentrus





Penri Parchus





# Asesu a Chynnydd

Credwn yn gryf bod pob plentyn yn haeddu'r cyfle i wneud cynnydd yn eu dysgu ac felly dyna yw prif bwrpas i'n gweithdrefnau asesu ni yn ein hysgolion.  Cawn ddarlun cyflawn o ddatblygiad bob plentyn yn eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u gwybodaeth wrth iddynt gamu fyny drwy flynyddoedd cynnar eu haddysg.  Rhown bwyslais ar bwysigrwydd cydweithio a cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr y ddwy ysgol a bod hyn yn datblygu o sgyrsiau proffesiynol rheolaidd gyda'n gilydd, rhieni a gofalwyr.  Fel hyn rydym yn ymateb i Ddibenion Asesu'r Cwricwlwm....



**Dangos cynnydd**

O ymuno a'r ysgol hyd nes gadael mae sampl o waith bob dysgwr yn cael ei gasglu a'i gadw mewn ffeil personol.  Fe gedwir sampl o waith ysgrifennu, llafar, darllen a rhifedd yn ogystal a'u datblygiad llesol ac emosiynol.



**Cefnogaeth barhaus i'n dysgwyr yn ddyddiol**

Mae systemau asesu cyson ar lawr dosbarth yn rhoi darlun clir i ymarferwyr ac i'r dysgwyr o'u cyrhaeddiad a beth yw eu camau nesaf.  Mae'n bwysig i ni bod pob plentyn yn cymryd cyfrifoldeb dros gynnydd eu hunain o dan arweiniad ac anogaeth.



**Myfyrio a mireinio cynnydd dysgwyr unigol dros amser**

Sicrheir fod cyfnodau penodol wedi eu hamserlennu ar gyfer sgyrsiau proffesiynol er mwyn trafod cynnydd pellach.  Cyfle yw hyn hefyd i sicrhau pontio effeithiol rhwng dosbarthiadau ac ysgolion uwchradd.




# 12 Egwyddor Addysgu

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth fel Ysgol a gofynion Fframwaith y Cwricwlwm mae addysgu ardderchog yn hanfodol. Mae sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, cysondeb ym mhob dosbarth ac awyrgylch diogel a chartrefol er mwyn i'n dysgwyr gael teimlo'n gyfforddus i fentro, allu gwneud camgymeriadau a dysgu o fewn amgylchedd diogel sydd yn parchu ymdrechion pawb yn hollbwysig i ni. Rydym yn ystyried, yn rhannu ac yn datblygu ein dulliau addysgu'n barhaus a hynny'n seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r 12 egwyddor addysgegol a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm.

Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol.

. Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb.

.Creu cyd-destunau dilys.

Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol.

Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu.

Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd.


. Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu.

Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus. Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyraeddadwy.

Hybu cydweithio

. Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol.

Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben.




. Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol.




# Ysgolion Ffederal

# Dwy ysgol, un teulu

Mae'n fwriad gan yr Ysgolion i adolygu a diwygio ein darpariaeth o'r cwricwlwm yn barhaus gan gynnwys ymgynghori gyda rhieni, dysgwyr a chyfranddalwyr eraill yr ysgol yn rheolaidd.

Bro Elwern 01490 412332  Betws GG 01490 460315

www.ysgolbroelwern.cymru

www.ysgolbetwsgg.cymru

